# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 13-09 (p1) : 4 Mehefin 2009**

## Ymchwiliad i'r Cefnffyrdd a Lleihau Nifer y Marwolaethau a'r Anafiadau

1. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n uniongyrchol gyfrifol am gynllunio a chyflawni gwelliannau a gwaith cynnal ar dros fil o filltiroedd o rwydwaith cefnffyrdd a 75 milltir o draffyrdd yng Nghymru. Rydym yn gwneud hyn trwy ein hasiantaethau â'n partneriaid dan gontract. Ein tair Asiantaeth Cefnffyrdd rhanbarthol yn y sector cyhoeddus sy'n rheoli'r cefnffyrdd o ddydd i ddydd yw Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru, Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru.

2. Mae Diogelwch ar y Ffyrdd yn elfen hanfodol o'n trefn ar gyfer rheoli'r cefnffyrdd ac mae lleihau nifer y marwolaethau a'r anafiadau ar y ffyrdd ym mhob rhan o Gymru yn un o ymrwymiadau Cymru'n Un. Yn 2000, gosododd Llywodraeth Cynulliad Cymru dargedau ar gyfer lleihau nifer y marwolaethau a'r anafiadau yn y cyfnod hyd at 2010. Mae'r tabl isod yn dangos ein bod yn gwneud cynnydd da tuag at wireddu'r targedau hyn.

| **Dosbarthiad** | **Targed 2010*** | **Cynnydd**<br>**(Data 2007)** |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y rhai sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol | Gostyngiad o 40% | Gostyngiad o 30% |
| Cyfanswm nifer y plant sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol | Gostyngiad o 50% | Gostyngiad o 62% |
| Anafiadau bychain am bob 100 miliwn kilometr a deithiwyd | Gostyngiad o 10% | Gostyngiad o 28% |

* oddi ar y cyfartaledd ar gyfer 1994-98.

### Rheoli Diogelwch y Ffyrdd

**3.**

Mae gwneud y ffyrdd yn ddiogel i bawb sy'n eu defnyddio yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac rydym yn ariannu a hyrwyddo amrywiaeth o fentrau a mesurau sy'n ceisio cyflawni hyn. Mae ein mentrau ar waith ym mhob maes o wella diogelwch y ffyrdd, megis gwneud gwelliannau priodol i'r seilwaith, cyflwyno mesurau gostegu traffig, annog pobl i ddefnyddio dulliau eraill yn lle'r car, ac addysgu plant a defnyddwyr ffyrdd fel gyrwyr ifanc a beicwyr. Mae ein mentrau allweddol yn cynnwys:

parthau 20 milltir yr awr

Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

Cydgysylltwyr Hyfforddi Cerddwyr Ifanc

Ymgyrchoedd Diogelwch y Ffyrdd

4. Ein prif ffordd o ariannu'r mentrau hyn yw trwy grantiau i Awdurdodau Lleol, megis y Grant Diogelwch Ffyrdd Lleol, sy'n £8.129m ar gyfer 2009/10 a'r Grant Trafnidiaeth ar gyfer Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, sy'n £8.134m.

### Partneriaeth Lleihau Marwolaethau ac Anafiadau Cymru Gyfan

**5.**

Menter allweddol arall ar gyfer gwella diogelwch ar ein ffyrdd yw'r Bartneriaeth Lleihau Marwolaethau ac Anafiadau Cymru Gyfan, sef cyfuniad o'r ddwy bartneriaeth flaenorol a sefydlwyd yn y Gogledd a'r De. Rydym yn darparu £8.4m yn 2009/10 i gefnogi'r fenter hon, a ddefnyddir yn bennaf i leihau nifer y marwolaethau a'r anafiadau ar y ffyrdd trwy orfodi cyfyngiadau cyflymder ond gellir ei ddefnyddio hefyd, os yw'n briodol, i ddatblygu a rhoi ar waith weithgareddau ehangach i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd, gan gynnwys gwaith peirianyddol, cyhoeddusrwydd a marchnata.

### Plismona'r Ffyrdd yng Nghymru - Y Maniffesto

6. Menter arall fwy diweddar yw datblygu'r 'Maniffesto', y cynllun newydd i wella diogelwch a lleihau tagfeydd ar rai o ffyrdd prysuraf Cymru. Datblygwyd y cynllun mewn partneriaeth â Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ac mae'n cynnig cyfannu gwasanaethau

presennol yr heddlu a'r cefnffyrdd a throsglwyddo pwerau o'r heddlu i awdurdodau'r priffyrdd i wella effeithiolrwydd plismona'r ffyrdd a rhyddhau'r heddlu i gyflawni dyletswyddau gorfodi'r gyfraith.

7. Y fenter allweddol a ddisgrifir yn y ddogfen hon yw datblygu model newydd ar y cyd rhwng yr Heddlu a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer rheoli'r ffyrdd lle mae'r traffig yn drwm, gan ddefnyddio Swyddogion Traffig. Bydd prawf yn cael ei roi ar y model hwn ar yr A55 yn y gogledd a'r M4 yn y de.

8. Lansiwyd y cynllun arbrofol ar yr A55 gyda "Stiwardiaid Llwybr" Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru yn gweithredu fel Swyddogion Traffig. Bydd y Stiwardiaid Llwybr yn derbyn hyfforddiant llawn yn ystod yr haf a'r arbrawf yn cael ei roi ar waith ym mis Medi. Bydd y swyddogion hyn yn bresennol pan fydd mân ddigwyddiadau wedi bod, yn cael gwared â malurion a helpu cerbydau sydd wedi torri i lawr. Yn ogystal á gwella diogelwch, lleihau tagfeydd a gwella amserau teithio bydd hyn yn lleihau'r angen i Heddlu Gogledd Cymru wneud y pethau hyn, gan ryddhau'r Heddlu i gyflawni eu swyddogaethau craidd eu hunain.

9. Mae'r cynllun arbrofol ar yr M4 wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn dechrau ym mis Medi. Yn y De, defnyddir Unedau Cefnogi Digwyddiadau. Faniau mawr (3.5 tunnell) fyddai'r cerbydau hyn, yn hytrach na'r cerbydau gyriant pedair olwyn a ddefnyddir yn yr arbrofion yn y Gogledd.

10. Ni all Heddlu De Cymru barhau i ddarparu'r un gwasanaeth ar gyfer gweithgareddau annhroseddol ag a ddarperid gynt ar y rhwydwaith cefnffyrdd yn y De, ac yn enwedig ar yr M4. Rydym yn ystyried dewisiadau i ganfod y ffordd orau o ddelio â'r mater hwn ar hyn o bryd ond credwn y bydd y cynllun arbrofol o ddefnyddio swyddogion traffig ar yr M4 o gymorth mawr i oresgyn y broblem.

11. Bydd canlyniadau'r ddau arbrawf hyn yn cael eu gwerthuso er mwyn penderfynu pa fodel i'w ddefnyddio yn y dyfodol ar gyfer plismona cydgysylltiedig ar gefnffyrdd Cymru.

### Gwaith Rheoli Cyffredinol ar y Rhwydwaith Cefnffyrdd

12. Yn ogystal â chefnogi a hyrwyddo ystod eang o fentrau i wella diogelwch y ffyrdd, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal a chadw'r cefnffyrdd i leihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau. Ein Hasiantau Cefnffyrdd sydd yn gofalu am ddiogelwch y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd o ddydd i ddydd, trwy amrywiol waith mawr a mân.

13. Mae gan ein Hasiantau Cefnffyrdd raglen flynyddol o waith cynnal mawr ar draws y rhwydwaith, gan gynnwys elfennau hollbwysig fel palmentydd, seilwaith y goleuadau ac adeiladweithiau. Maent hefyd yn cynnal archwiliadau diogelwch a gwaith cynnal arferol fel torri glaswellt a chynnal lleiniau gwelededd a thrwsio ac uwchraddio ffensiau diogelwch.

14. Yn ogystal â'r gwaith a wneir gan ein hasiantau, mae'r cynlluniau gwelliannau mawr yn ein Blaenraglen Gefnffyrdd a'n rhaglen ein hunain o welliannau ac uwchraddio yn chwarae rôl bwysig mewn gwella diogelwch y ffyrdd trwy sicrhau bod y rhwydwaith yng Nghymru yn ateb y gofyn.

### Gweithio Gyda'n Gilydd mewn Partneriaeth

15. Wrth wraidd gwella diogelwch ar ffyrdd Cymru y mae'r angen i gydweithio mewn partneriaeth, pan fydd digwyddiadau'n digwydd a hefyd wrth weithredu'r holl fentrau a rhaglenni rhagweithiol yr ydym wedi'u sefydlu i wella diogelwch y ffyrdd ac atal damweiniau.

16. Un enghraifft o sut rydym yn cydweithio mewn partneriaeth yw 'Diogelwch Ffyrdd Cymru', a sefydlwyd i ddatblygu a chynnal cydweithredu a rhyngweithio rhwng pob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru a'r asiantaethau sydd â'r cyfrifoldeb am hyrwyddo diogelwch y ffyrdd trwy'r awdurdodau lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, pedwar Heddlu Cymru, y tri gwasanaeth Tân ac Achub, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau yng Nghymru. Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru yn canolbwyntio ar atal digwyddiadau trwy addysg a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

17. Mae ein partneriaid yn chwarae rôl allweddol wrth ymateb i ddigwyddiadau ar y ffyrdd. Pan fydd damweiniau'n digwydd ar rwydwaith y ffyrdd, bydd Traffig Cymru, yr heddlu ac Asiantau'r Cefnffyrdd yn cydweithio'n agos i sicrhau y delir ag unrhyw un sydd wedi'i anafu yn gyflym a diogel ac y tarfir cyn lleied ag y bo modd ar y rhwydwaith.

### Sylwadau i Gloi

18. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i gydweithio'n agos â'r holl bartneriaid sydd â rhan mewn sicrhau diogelwch ffyrdd Cymru. Yn ogystal â chydweithio â'n Hasiantau Cefnffyrdd a Heddluoedd Cymru, rydym yn cydweithio â'r awdurdodau lleol trwy'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan ddefnyddio'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol fel y mecanweithiau ar gyfer blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer sicrhau diogelwch ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.

**Ieuan Wyn Jones AC**
**Y Dirprwy Brif Weinidog a Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Mai 2009**